trobwynt
Rhannu'r ffydd Gristnogol gyda'n hieuenctid
Cylchlythyr
Rhifyn 9
Ebrill 2009

New World Alive

John a Rachel yn cael eu cyfweld ar lwyfan New Word Alive

Mynychodd John a minnau wythnos gyntaf y *New World Alive*, a deuthum oddi yno wedi ein hysbrydoli ac yn awyddus iawn i fwrw ati gyda'r pethau sydd gan Dduw wedi'u paratoi ar ein cyfer. Bu'n gyfle arbennig i gyfarfod â Christnogion eraill, cyfarfod â hen ffrindiau, a threulio amser tawel gyda Duw, yn addoli, gweddïo a gweld beth yw ei ewyllys Ef ar gyfer gwaith Trobwynt. Os nad ydych wedi clywed am y digwyddiad hwn, cynhadledd Feiblaidd ydyw, gyda dysgeidiaeth dda a sesiynau a seminarau o addoliad. Fe'i cynhaliwyd yn Hafan y Môr, Pwllheli (ie, yma ar ein stepen drws!)

Twrnament Pêl-droed 5-bob-ochr

Profodd twrnament pêl-droed y llynedd yn un llwyddiannus iawn a gwelwyd 60 o fechgyn o bob rhan o'r ardal yn dod ynghyd ar gyfer noson arbennig o bêl-droed, bwyd ac efengyl. Cafwyd y tywydd gwaethaf erioed yr wythnos honno, oni bai am y nos Fercher, ni chafwyd glaw, ac ymddangosodd yr haul hyd yn oed! Roeddem wedi gwahodd Steffan Job (EMW) atom fel siaradwr gwadd, a chymerodd y cyfle i rannu'r efengyl gyda'r bechgyn.

Byddwn yn cynnal y twrnament unwaith eto eleni, ac mae'r trefniadau eisoes yn eu lle wrth i mi 'sgrifennu'r llythyr hwn. Gweddïwch dros y digwyddiad hwn os gwelwch yn dda - am dywydd braf, digon o wirfoddolwyr i ddyfarnu, cogyddion ar gyfer y barbeciw a thros y bechgyn sydd am ddychwelyd i gymryd rhan unwith eto eleni. Gwyddwn nad yw niferoedd yn bopeth, ond roedd hi'n braf iawn gweld 60 o fechgyn yn cystadlu y llynedd mewn digwyddiad Cristnogol. Unwaith eto, os ydych yn adnabod unrhyw fechgyn a fyddai'n hoffi cymryd rhan, ond efallai nad oes digon ohonynt i ffurfio tîm, dewch â nhw i'r digwyddiad, bydd modd creu timau llawn ar y noson!

Noson Efengyl Flêr

Ar Ddydd Gwener y Groglith roeddem yn cymryd rhan mewn digwyddiad o'r enw Efengyl Flêr (*Messy Gospel*). Swnio'n rhyfedd, ydy, ond noson o gemau hwyliog (bydd rhai yn flêr iawn mae'n siŵr), bwyd parti, ychydig o gymdeithasu a rhannu stori'r Pasg, o hanes gardd Gethsemane at yr Atgyfodiad. Cynhaliwyd y digwyddiad yn Eglwys Sant Pedr, Pwllheli.

Penwythnos Encil i Ferched

Ar y 1af o Fai, 2009, mae rhai ohonom fel arweinwyr wedi trefnu penwythnos encil i ferched yng Ngholeg y Bala. Enwyd y penwythnos yn 'Benwythnos Gwerthfawr', a bydd yn gyfle i ferched ledled yr ardal i gael penwythnos 'cysgu-oddi-cartref' (*sleep-over*) anferthol! Mae nifer o weithgareddau hwyliog wedi'u paratoi ar eu cyfer, yn ogystal ag ychydig o sesiynau Beiblaidd a fydd yn canolbwyntio ar faterion sy'n effeithio ar ferched yn eu harddegau y dyddiau hyn. Bydd hwn yn benwythnos cyfan o hwyl, i ferched yn unig! Os ydych yn adnabod merch yn ei harddegau a fyddai'n cael budd o fynychu penwythnos o'r fath, yna cysylltwch â ni os gwelwch yn dda er mwyn derbyn manylion pellach a ffurflen gais. Rhaid i'r merched fod yn 11oed neu hŷn (blwyddyn 7 ac uwch).

Undebau Cristnogol

Roeddwn yn awyddus i sôn wrthych am yr Undebau Cristnogol, neu 'y peth clwb Duw yna' fel y cânt eu hadnabod mewn ysgolion, gan iddynt brofi i fod yn ysbrydoliaeth i ni yn ystod yr wythnosau diwethaf, ac hefyd i'r gwirfoddolwyr sy'n ein cynorthwyo i'w rhedeg. Gwelwyd plant yn mynychu'n ffyddlon, hyd yn oed pan oedd y tywydd yn braf, er mwyn clywed am Dduw a chanfod mwy am Iesu. Cafwyd sgyrsiau difyr iawn a chwestiynau ac atebion arbennig, ac mae'n braf eu gweld yn cyffroi ynglŷn â'r Beibl!

Twrnament 2008

Hoffech chi gefnogi trobwynt?

Ffôn: 01758 750202